Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
3 Tachwedd 2016 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Geraint R. Jones, Ifor Dylan Williams, Ian Jones
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Emyr Williams, Edd Huws, Gwyneth Thomas, Sioned Williams

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd. Cynnig: Geraint R. Jones
Eilio: Dafydd Iwan f

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Coed Llwyn Beuno

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru wedi dweud y byddant yn torri'r coed erbyn canol Tachwedd.

4.2 Signal Ffôn Symudol ym Montnewydd

Ysgrifennodd y Clerc at Vodafone/Telefonica yn cadarnhau fod y Cyngor yn gefnogol i'r bwriad i leoli mast ffôn symudol yno.

Bydd Vodafone/Telefonica yn gwneud cais cynllunio'n fuan, ond mae'n debygol fod Cyngor Gwynedd yn mynd i ofyn am newid bychan i leoliad y mast, fel ei fod yn agosach i'r ganolfan ailgylchu.

Gan fod bwriad i ddarparu gwasanaeth di-wifr ar faes chwarae Ysgol Bontnewydd, bydd Pwyllgor Y Ganolfan yn gweld os oes modd defnyddio'r signal di-wifr yma yn Y Ganolfan.

Bu trafodaeth ar y diffyg signal ffôn symudol yn Llanfaglan hefyd. Yn ogystal, does dim bandeang cyflym ar gael yn Llanfaglan, er gwaetha'r ffaith fod y bibell Cyflymu Cymru sy'n rhedeg o Gaernarfon i Bwllheli gerllaw. Roedd y bibell hon fod i alluogi bandeang cyflym yng Ngwynedd.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at BT Openreach a Llywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ar y sefyllfa.

Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Sian Gwenllian A.C. am y mater hefyd.

4.3 Adroddiad Comisiwn Ffiniau i Gymru

Paratodd y Cynghorydd Geraint R. Jones adroddiad byr a sylwadau ar fwriad y Comisiwn i newid ffiniau etholiadol Cymru. Gan mai gorchwyl y Comisiwn yw gwneud etholaethau'n gyfartal o ran maint (71,000-78,000 o etholwyr), yna mae'n annorfod y bydd rhai etholaethau yng Nghymru yn rhai mawr o ran arwynebedd.

Bydd yr ad-drefnu yn golygu y bydd yr Arfon presennol yn uno gyda Môn, gan eithrio popeth i'r gorllewin o Gaernarfon, gan gynnwys Llanberis,a Waunfawr. Bydd y pentrefi yma, yn ogystal â Bontnewydd yn rhan o etholaeth enfawr.

Trafodwyd a ddylai Bontnewydd fod yn rhan o etholaeth newydd Arfon yn hytrach nag yr etholaeth enfawr newydd sy'n ymestyn o Ben Llyn i Aberdyfi, i'r Bala. Tua 800 yw poblogaeth Bontnewydd, felly mi fyddai'n bosibl ymgorffori'r Gymuned yn etholaeth Arfon heb amharu ar niferoedd poblogaeth yr etholaethau arfaethedig

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at y Comisiwn i nodi mai barn Cyngor Cymuned Y Bontnewydd yw y dylai ardal Cyngor Cymuned Y Bontnewydd fod yn rhan o etholaeth Arfon, gan fod y pentref yn tynnu'n naturiol i gyfeiriad Caernarfon am siopa, ysgol uwchradd, gwaith a gwasanaethau llyfrgell.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Hydref 2016

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18
Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau Postio £1.10

5.3 Balans yn y Banc 1 Hydref 2016 - £11,859.56

6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

Dim

7. GOHEBIAETH

Dim

8. MATERION ERAILL

8.1 Adroddiad Llifogydd Bontnewydd

Derbyniwyd fersiwn terfynol adroddiad llifogydd Bontnewydd gan Gyngor Gwynedd. Mae'n debyg i'r adroddiad draft a dderbyniwyd rai misoedd yn ôl, a does dim sôn ynddo am wneud unrhyw waith yn uwch i fyny'r afon.

8.2 Dementia Gyfeillgar

Mynychodd y cynghorydd Dafydd Iwan gyfarfod yn trafod y bwriad i sefydlu Bontnewydd a'r ardal yn ardal dementia gyfeillgar. Y bwriad yw hybu ymwybyddiaeth o ddementia, gan gynnwys sicrhau fod busnesau lleol yn medru deall anghenion cwsmeriaid sy'n diddoedf o ddementia yn well. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r syniad.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

1 Rhagfyr 2016 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd.

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :
Cofnodion cyfarfod Tachwedd 2016